# P-04-535 Achubwch ein Gorsafoedd Tân

Geiriad y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gwasanaethau tân drwy□r wlad yn cael eu gwarchod rhag toriadau llym yn y gyllideb, a fyddai, yn anochel, yn effeithio ar y gwasanaeth ac ar amseroedd ymateb.

Gwybodaeth ychwanegol:
Oherwydd toriadau llym yn y gyllideb gan Lywodraeth Cymru i lywodraeth leol, mae awdurdodau tân yn wynebu pwysau ariannol sylweddol ac maent yn cael eu gorfodi i leihau eu cyllidebau. Credwn y bydd hyn yn effeithio□n uniongyrchol ar amseroedd ymateb a gallai roi bywydau pobl mewn perygl. Gan mai Llywodraeth Cymru sydd â□r cyfrifoldeb eithaf dros y gwasanaeth tân, credwn y dylai Llywodraeth Cymru ymyrryd yn ariannol yn yr un ffordd ag y gwnaeth gyda□r GIG, i warchod y gwasanaeth tân rhag toriadau yn y gyllideb.

Prif ddeisebydd: Jonathan Edwards

Ysytyriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor: 18 Chwefror 2014

Nifer y llofnodion: 698